# Cylchlythyr y Rhwydwaith Gofal Plant Tachwedd 2025

## Swyddogion Datblygu Gofal Plant

Peidiwch ag anghofio bod eich Swyddogion Datblygu Gofal Plant (DGP) ar gael i gefnogi darparwyr gofal plant ledled Torfaen. Gall eich Swyddog DGP gynnig pecyn cymorth cynhwysfawr yn cynnwys –

•Cymorth Busnes
•Grantiau a Chodi Arian
•Datblygu'r Gweithlu
•Ansawdd
•Ehangu a llawer mwy

Cysylltwch â'ch Swyddog DGP am gymorth drwy anfon e-bost i ChildcareSupport@torfaen.gov.uk

## Mae eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd eich angen chi!

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen yn diweddaru manylion ei wasanaethau i'r cyhoedd yn gyson. Er mwyn sicrhau bod gennym eich gwybodaeth ddiweddaraf, rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn. Gallwch hefyd hysbysebu eich swyddi gwag ar ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol

## Gair i'ch atgoffa

A ydych wedi rhannu'r diweddaraf am eich costau gofal plant? Anfonwch e-bost i fis@torfaen.gov.uk os oes gennych unrhyw newidiadau.

## Gwybodaeth Gyswllt

**Eposl:** fis@torfaen.gov.uk
Ffôn: 0800 0196 330
**Gwefan** www.torfaenfis.gov.uk

Torfaen
Family Information Service
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

# Hysbysiadau Pwysig

**Ydych chi wedi cofrestru'n gywir gydag AGC?**

Mae rhai darparwyr wedi'u cofrestru'n anghywir. Gall hyn fod oherwydd newid mewn perchnogaeth neu amgylchiadau neu efallai gall fod ychydig o ddryswch os yw elusen yn cofrestru darpariaeth.
Mae rhagor o wybodaeth am y mathau o endidau cyfreithiol y gellir eu cofrestru, a sut i wneud cais ar gael ar wefan AGC.

**Y Cod Ymarfer**

Cod Ymarfer ar gyfer arolygu gwarchodwyr plant, gofal dydd a gwasanaethau chwarae mynediad agored. Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi gwybod i chi sut mae eich gwasanaeth yn cael ei archwilio, ond mae hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni, gofalwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Darllenwch y cod, yma.

**Help i lenwi eich Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS).**

Mae llenwi eich SASS yn broses gyflym a hawdd trwy eich cyfrif AGC Ar-lein. Isod, mae gan AGC fideo'n dangos 'sut i lenwi'r datganiad' , a llyfryn i egluro sut i gwblhau eich SASS. .

https://youtu.be/3fozPE7NdG8

**Helo Blod**

Mae Helo Blod yn wasanaeth cyfieithu a chynghori Cymraeg. Mae'n wasanaeth cyflym a chyfeillgar i'ch helpu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eich busnes neu elusen.

# Hysbysiadau Pwysig

**Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir: newidiadau arfaethedig ar gyfer 2025**

Mae Llywodraeth Cymru angen clywed eich barn am y newidiadau arfaethedig diweddaraf i'r SGC ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, i blant hyd at 12 oed.

Os nad ydych wedi cael cyfle i lenwi'r ffurflen ymateb eto, mae amser o hyd gan y bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 10 Rhagfyr 2025.

Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir: newidiadau arfaethedig ar gyfer 2025 | LLYW.CYMRU

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i childcareandplaymailbox@gov.wales

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Mae fersiwn diweddaraf o'r 'Cyfnod gwahardd ar gyfer heintiau cyffredin' ar gael drwy ddilyn y ddolen isod.

https://phw.nhs.wales/services-and-teams/aware-healthprotection-team/guidance-for-childcare-preschool-andeducational-settings/exclusion-period-for-commoninfections-including-a-z-of-common-infections-and-nextsteps-july-2025-v8

# Y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Ydych chi'n cau dros wyliau'r Nadolig?

Peidiwch ag anghofio y bydd angen i rieni gofrestru cyn i chi gau os ydyn nhw'n dymuno dechrau'r Cynnig Gofal Plant gyda chi ym mis Ionawr!

Cliciwch yma i roi help llaw iddynt: www.gov.wales/childcare-offer-forwales-campaign

-

Neu gofynnwch iddyn nhw ffonio ein llinell gymorth genedlaethol ar 03000 628 628

One Login

IOs ydych chi wedi creu cyfrif mewngofnodi ar One Login GOV.UK, gallwch ychwanegu dull wrth gefn i gael eich codau diogelwch pan fyddwch chi'n mewngofnodi iddo.

Gall hyn helpu i wneud yn siŵr eich bod bob amser yn gallu mewngofnodi i'ch cyfrif.

Mewngofnodwch i'ch cyfrif One Login GOV.UK a chlicio ar Security ar brif dudalen eich cyfrif i gael mwy o fanylion.
Ddarparwyr, mewngofnodwch i'ch cyfrif Cynnig Gofal Plant i Gymru | LLYW.CYMRU

Cynnig Gofal Plant Cymru
Childcare Offer for Wales

# Cyllid a Chysylltiadau:

## Grantiau i Gefnogi Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar i Blant Byddar (UK)

Mae grantiau o hyd at £10,000 ar gael drwy Raglen Grantiau Cymunedol y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, a hynny ar gyfer grwpiau cymunedol, elusennau a sefydliadau dielw sy'n cefnogi plant byddar a'u teuluoedd ledled y DU.

Yn y rownd hon, bydd cyllid yn cefnogi prosiectau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo datblygiad plant byddar yn eu blynyddoedd cynnar (0–5 oed). Mae'r cam hwn yn hanfodol, yn enwedig i blant a allai fod yn wynebu heriau o ran sgiliau iaith, cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol, heb y gefnogaeth gywir.

Gall prosiectau gynnwys teuluoedd, gweithwyr proffesiynol, a phlant byddar hŷn, ar yr amod eu bod yn cyfrannu at ddatblygiad y blynyddoedd cynnar.

Gall cyllid dalu costau fel: llogi lleoliad, cludiant, costau hyrwyddo, cyflogau ar gyfer gweithwyr sesiynol, cyfieithwyr, ac offer tiwtoriaid iaith sy'n hanfodol ar gyfer y prosiect, fel offer chwarae neu dechnoleg.

Derbynnir ceisiadau fesul cam, a bydd dyddiadau asesu penodol trwy gydol y flwyddyn.

# Cyllid a Chysylltiadau:

## Sefydliad Screwfix (UK)

Mae Sefydliad Screwfix yn derbyn ceisiadau gan elusennau a sefydliadau di-elw (gan gynnwys ysgolion arbennig, di-elw) a hynny ar gyfer prosiectau a fydd yn trwsio, atgyweirio, cynnal a gwella eiddo a chyfleusterau cymunedol, i'r rheiny sydd mewn angen oherwydd caledi ariannol, salwch, anabledd, trallod, neu anfantais arall, ledled y DU.

Mae grantiau o tua £5,000 ar gael ar gyfer amrywiaeth o brosiectau, fel: Goleuadau a systemau gwresogi sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, gosod cegin, ystafell ymolchi newydd ac ati, creu ystafell synhwyraidd, paentio ac addurno cyffredinol, gwella diogelwch a diogelwch adeilad

Mae ceisiadau yn cael eu hadolygu bob chwarter, a'r dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau yw 10 Chwefror 2026.

# Cyllid a Chysylltiadau:

Grantiau i Gefnogi Plant Difreintiedig (Cymru a Lloegr)

Mae cyllid ar gael i elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr sy'n cefnogi plant a phobl ifanc difreintiedig.

Mae'r cyllid sy'n cael ei ddarparu drwy Raglen Grantiau Elusennol Sefydliad Elusennol y Seiri Rhyddion, yn cynnig dau fath o grant:

Mae Grantiau Bach, sy'n amrywio o £1,000 i £5,000, ar gael i elusennau sydd ag incwm blynyddol o rhwng £25,000 a £500,000 a gellir eu defnyddio at unrhyw ddiben (heb gyfyngiadau).

Mae Grantiau Mawr, sy'n amrywio o £10,000 i £60,000, ar gael i elusennau sydd ag incwm blynyddol o rhwng £500,000 a £5 miliwn. Rhaid defnyddio'r grantiau hyn ar gyfer prosiectau penodol gyda nodau a chyllidebau diffiniedig.

Gellir gwario arian ar gyflogau, offer, hyfforddiant, monitro a gweinyddu. Dylai prosiectau ganolbwyntio ar un neu fwy o'r meysydd canlynol: cefnogi plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt; mynd i'r afael ag anghenion plant yn y blynyddoedd cynnar (0–5 oed) gyda ffocws ar dlodi ac esgeulustod, neu helpu plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau.

Dylai elusennau sydd â diddordeb mewn gwneud cais, gyflwyno mynegiant o ddiddordeb (EOI) yn gyntaf, y gellir ei gyflwyno ar unrhyw adeg. Os ydynt yn cyrraedd y rhestr fer, bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i gwblhau cais llawn.

Yn ogystal, mae gan y Sefydliad Elusennol y Seiri Rhyddion, rhaglen grantiau ar wahân gyda'r nod o wella iechyd a lles pobl hŷn sydd â dementia, a'u gofalwyr. Mae oedi yn y rhaglen hon ar hyn o bryd. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiadau ailagor y rhaglenni hy, ewch i wefan y Sefydliad.

# Cyllid a Chysylltiadau:

## Grantiau i gefnogi plant difreintiedig (Cymru a Lloegr)

Mae Gofalwn. Cymru yn cynnig cyfres o adnoddau am ddim i gefnogi iechyd a lles staff gofal cymdeithasol a gofal plant. Fodd bynnag, dim ond i'r rhai sydd wedi cofrestru gyda GCC y mae rhai o'r adnoddau hyn ar gael.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma: https://socialcare.wales/resources-guidance/health-and-well-beingresources

-

Mae Case UK yn cynnig cymorth AM DDIM yn y gwaith i unrhyw un sy'n cael ei gyflogi yng Nghymru. Ariennir hyn gan Lywodraeth Cymru.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma: Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith | Ffisiotherapi | Therapi Galwedigaethol | Therapi Seicolegol

Mae DWP yn cynnig ...Able Futures, sy'n cynnig Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl AM DDIM i unigolion sy’n gweithio.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma: Sut mae Able Futures yn gweithio | Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Able Futures

# Cyfleoedd Hyfforddi:

## Cyfleoedd Hyfforddi Diweddaraf Bwrdd Diogelu Gwent

Ymwybyddiaeth o’r System Cyfeirio Cenedlaethol 20 Tachwedd 2025, 10am – 12pm (Ar-lein) Cliciwch yma i wneud cais

Diogelu Oedolion – Ymarferwyr Grŵp C 2 Rhagfyr 2025, 09:15a – 16:45pm (Wyneb yn Wyneb) Cliciwch yma i wneud cais

Cadw’n Feddylgar – Hyfforddiant Sgyrsiau Iechyd Meddwl gyda Phobl Ifanc (Prosiect Mind our Future) 3 Rhagfyr 2025, 13:30pm – 15:30pm (Ar-lein)
Cliciwch yma i wneud cais

Rhoi'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ar Waith (Oedolion) 9 Rhagfyr 2025, 09:30am – 12:30pm (Wyneb yn Wyneb)
Cliciwch yma i wneud cais

Amddifadu o ryddid a'r Awdurdodaeth Gynhenid ar gyfer Ymarferwyr Plant a Phobl Ifanc 9 Rhagfyr 2025, 13:00pm – 16:00pm (Wyneb yn Wyneb)
Cliciwch yma i wneud cais

Ymddygiad Rhywiol Niweidiol 19 Ionawr 2026, 09:30am – 16:30pm (Wyneb yn Wyneb)
Cliciwch yma i wneud cais

Diogelu Plant ac Oedolion – Ymarferwyr Grŵp B 28 Ionawr 2026, 09:30am – 16:30pm (Wyneb yn Wyneb)
Cliciwch yma i wneud cais

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol 29 Ionawr 2026, 10am – 12pm (Ar-lein)
Cliciwch yma i wneud cais

Diogelu Plant – Ymarferwyr Grŵp C 30 Ionawr 2026, 09:15am – 16:45pm (Wyneb yn Wyneb)
Cliciwch yma i wneud cais

Hyfforddiant Gwent N-Gage Book Creator - Dolenni Hyfforddi

Hyfforddiant VAWDASV Gwent

# Stori Newyddion Da

Llongyfarchiadau i Dîm Dechrau’n Deg y Blynyddoedd Cynnar yng Nghylch Chwarae Hwyaid Bach Garnteg, a gafodd adroddiad Rhagorol yn dilyn arolwg diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Dyfarnwyd Ardderchog ar gyfer pob un o'r pedwar maes sy'n cynnwys Llesiant, Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Yr Amgylchedd a Gofal a Datblygu.

Dywedodd yr adroddiad, “Mae’r plant yn cael cyfleoedd ardderchog i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth sy'n cyfoethogi eu dysgu a'u datblygiad yn gyffredinol.”

Da iawn i'r tîm sy'n llawn haeddu'r gydnabyddiaeth ac i bawb am eu holl waith caled a'u hymroddiad i'r holl blant a theuluoedd y maen nhw'n gweithio gyda nhw.

